



Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

Heol y Bardd, Porth Tywyn,

Sir Gaerfyrddin SA16 0NL

Ffôn:- 01554 832101

Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru

www.ysgolparcytywyn.co.uk


Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies

23/01/2020

Cwrs Preswyl Blwyddyn 4 i Gaerdydd

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Nodyn byr yw hwn i'ch hysbysu ein bod wedi trefnu cwrs preswyl i ddisgyblion Blwyddyn 4 fynychu'r Ganolfan Urdd ym Mae Caerdydd ar 18fed-20fed Mawrth 2020. <https://www.urdd.cymru/cy/ein-gwersylloedd/caerdydd/> Bydd y plant yn aros yng Nghanolfan yr Urdd sydd wedi'i lleoli yn adeilad Canolfan Mileniwm Cymru am ddwy noson ac yn cael tri diwrnod llawn o weithgareddau. Mae'r amserlen ar gyfer y cwrs preswyl fel y ganlyn

Dydd Mercher 18/03/2020	9:15am Gadael YGG Parc y Tywyn 10:15-1:00 Ymweld a Sain Ffagan 1:00 – 2:00 Cinio yn Sain Ffagan (bydd angen pecyn bwyd ar eich plentyn) Teithio i Ganolfan Urdd ac ymgartrefu Taith o amgylch Canolfan Mileniwm Cymru Swper Bowllo deg ym Mae Caerdydd	
Dydd Iau 19/03/2020	Brecwast yng Nghanolfan yr Urdd Taith fer i Stadiwm y Principality ar y cwch dŵr Taith o amgylch Stadiwm y Principality Cinio Ymweliad â'r Amgueddfa yng Nghaerdydd Swper Noson disgo a ffilm yng Nghanolfan Urdd	
Dydd Gwener 20/03/2020	Brecwast Ymweliad â Techniquet 9-12 Cinio yng Nghanolfan yr Urdd 1:15 Ymadael â Chaerdydd i gyrraedd yn ôl yn YGG Parc y Tywyn tua. 2:30	

Cost y cwrs preswyl sy'n cynnwys cludiant, gweithgareddau, llety a bwyd yw £ 155 y plentyn.

Er mwyn cadw lle i'ch plentyn, a hefyd i ni gadarnhau rhifau / lleoedd, bydd angen i chi gwblhau'r slip isod a'i ddychwelyd i'r ysgol **gyda blaendal na ellir ei ad-dalu o £ 55 erbyn dydd Mawrth 04/02/2020**. Rhaid talu'r swm sy'n weddill (£ 100) erbyn 10/03/2020.

CWRS PRESWYL BLWYDDYN 4 : CAERDYDD 18-20/03/2020

Dychwelwch i'r ysgol erbyn 04/02/2020



Enw'r plentyn :

Dosbarth : Mr I Jones

Rwy'n dymuno * / Nid wyf yn dymuno * cadw lle ar gyfer fy mhientyn ar y cwrs preswyl i Fae Caerdydd. Rwy'n amgáu blaendal o £ 55 na ellir ei ad-dalu.

Signed : _____ Date : _____